# <u>Cynllun Busnes Cyngor Cymuned Tir y Mynach 2026-27</u>

**Crynodeb o Weithgareddau 2025-26**

Mae'r Cyngor Cymuned yn cael ei lywodraethu gan yr egwyddorion a amlinellir yn Neddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn ystyried cynaliadwyedd ac effaith amgylcheddol yn ei holl benderfyniadau.

Rydym yn parhau gyda'n cynllun 5 mlynedd i ddatblygu Parc Chwarae Bryncastell er mwyn cynnig amgylchedd diogel a diddorol i blant chwarae gan hefyd gynnig amgylchedd tawel a braf ar gyfer eu teuluoedd a'u gofalwyr. Cynhaliwyd archwiliad ROSPA yn y parc ac er na nodwyd unrhyw bryderon sylweddol, nodwyd ambell i bryder lefel isel yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Gallai un neu ddau o'r pryderon hyn fod yn anodd eu cyflawni megis tyllau a mannau moel o dan y swing lle mae traed yn crafu'r llawr. Efallai y bydd rhaid i ni dderbyn y materion hynny fel tystiolaeth bod y parc yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol ac yn cael ei fwynhau. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro er mwyn sicrhau bod pob pryder diogelwch yn cael sylw.

Er mwyn cadw'r parc yn ddiogel, rydym wedi codi ffensys newydd i'r un uchder â'r rhai blaenorol. Mae'r ffensys wedi gwneud i'r parc edrych yn fwy agored ac yn fwy deniadol gobeithio. Mae angen gwaith pellach i gyflawni'r safon yr ydym yn ei ddymuno, ac felly mae'n parhau i fod yn flaenllaw yn ein cynlluniau at y dyfodol.

Rydym wedi parhau i fonitro a chynnal a chadw'r 4 diffibriliwr yn y gymuned gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn weithredol.

Mae'r problemau'n gysylltiedig â baw cŵn a sbwriel yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a llwyddom i sicrhau bod y bin sbwriel y tu allan i Barc Bryncastell yn cael ei ailosod er mwyn bod o fewn cyrraedd i aelodau'r cyhoedd sy'n cerdded heibio gan gynnwys y rhai sy'n cerdded gyda'u cŵn.

Darparwyd cymorth ariannol ac ymarferol ar gyfer y digwyddiad goleuo'r goeden Nadolig ar ddechrau mis Rhagfyr a gynhaliwyd ar y cyd ag Ysgol Rhydypennau a Phwyllgor Neuadd Rhydypennau.

Darparwyd cymorth ariannol hefyd ar gyfer y noson Tân Gwyllt blynyddol a drefnwyd gan y Clwb Pêl-droed, a the parti Diwrnod VE a gynhaliwyd yn Llangorwen. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd digwyddiadau o'r fath er mwyn ychwanegu at y cyfleoedd sydd ar gael i gymdeithasu o fewn y gymuned.

Darparwyd cymorth ariannol hefyd i sefydliadau allweddol er mwyn cynyddu eu capasiti i gyfoethogi ein cymuned.

Rydym yn parhau i fynychu digwyddiadau sy'n cynnig cyfleoedd i breswylwyr drafod pryderon gyda ni e.e. Ffair Wanwyn y Neuadd, a boreau

coffi gofod cynnes ar foreau Gwener, ond rydym yn cydnabod bod yn well gan lawer o bobl godi materion ar lefel fwy personol gyda Chynghorwyr Cymuned maen nhw'n eu hadnabod. Rydym yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi, a lle bo'n briodol, rydym yn codi materion ar lefel y Cyngor Sir naill ai drwy ein Cynghorydd Sir neu drwy'r system CLIC.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2026-27**

1)Rydym yn parhau i ddatblygu Parc Bryncastell.
Rydym wedi gwneud cais am grant i Gronfa Leri ac mae gosod offer chwarae newydd yn ddibynnol ar y cyllid hwn.
Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi arwain at bryderon Diogelu gan olygu ein bod yn ceisio cyngor gan Swyddog Diogelwch Cymunedol Heddlu Dyfed Powys, ac rydym yn ystyried gosod mesurau ataliol megis mwy o oleuadau a Theledu Cylch Cyfyng.

2) Tynnu a gwaredu hen offer chwarae o'r hen barc y tu ôl i Dregerddan. Nid ydym wedi llwyddo i ganfod contractwr i wneud hyn y llynedd. Mae hyn felly'n parhau i fod yn flaenoriaeth eleni.

3)Mae'r cytundeb i gynnal a chadw ein hymylon glaswellt a'r mannau a nodwyd sy'n gyfrifoldeb i'r Cyngor Cymuned yn parhau.

4)Parhau i fonitro a chynnal a chadw'r 4 Diffibriliwr

5)Monitro peryglon amgylcheddol gan gynnwys baw cŵn, tyllau yn y ffyrdd a chyflwr y ffyrdd mewn tywydd gaeafol. Gallai'r rhain arwain at y Cyngor Cymuned yn ymchwilio i finiau graean, halen a sbwriel os nad ydynt yn dod o dan ddyletswyddau cytunedig y Cyngor Sir.

6) Cymorth grant i bartneriaid ac asiantaethau allweddol yn y gymuned i'w cynorthwyo i gefnogi a gwasanaethu'r gymuned ac i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i'r boblogaeth leol. Mae'r rhain yn cynnwys yr ysgol leol, Neuadd y Pentref a Sioe'r Pentref, arddangosfa tân gwyllt y Clwb Pêl-droed, y Goeden Nadolig, yn ogystal â gwahanol sefydliadau sy'n weithgar yn ein cymuned i gynorthwyo'r boblogaeth leol, e.e. Y Tincer, HAHAV, Pwyllgor Yr Henoed a'r CFfI.